DATGANIAD I'R WASG - GŴYL FEL 'NA MAI - CRYMYCH 2025

Ymhen ychydig wythnosau, ar ddydd Sadwrn, 3 Mai, 2025, fe fydd Prifwyl y Preselau yn cael ei chynnal am y pedwerydd tro ar safle Frenni Transport ym Mharc Gwynfryn, Crymych, ac mae'na groeso i bawb.

Mae'r arlwy cerddorol eleni yn rhagorol a dweud y lleia, gyda nifer fawr o enwau mwyaf amlwg y sîn Gymraeg yn ymddangos ar lwyfannau'r Ŵyl.

Llwyfan Foel Drigarn o 1.15yp tan yr hwyr

Talentau lleol **Côr Ysgol Bro Preseli** a **Chôr Ysgol Cilgerran**. **Dewin** enillwyr grŵp gorau Gwobrau Ail Symudiad 2025. Croesawn y grŵp gwerin roc cyffrous **Taran** i'r Ŵyl am y tro cyntaf, cyn i'r meistri roc trwm **Mattoidz** godi'r tô. Nesa i'r llwyfan fydd yr egnïol, swynol **Mali Haf,** ac wrth iddi droi'n gyfnos bydd y gantores a'r gyfansoddwraig doreithiog o Fôn, **Meinir Gwilym** a'i band yn ein diddanu. Yn dilyn ceisiadau lu, byddwn yn croesawu'r grŵp poblogaidd, **Gwilym** unwaith yn rhagor i Grymych, ac i goroni'r cwbwl fe fydd yr anhygoel **Yws Gwynedd** a'i fand yn cloi'r Ŵyl eleni.

Llwyfan Y Frenni Fawr 1.35yp tan 19.10yh

Yn ymddangos am y tro cyntaf eleni, **Côr Rocesi'r Fro** dan arweiniad Einir Dafydd, yna blas o gerddoriaeth yn nhraddodiad Django Reinhardt gan **Llandjango**. Nesa, fe fydd enillydd gwobr unigol Gwobrau Ail Symudiad, y gantores **Danny Sioned** yn ein diddanu cyn i'r hen bensiynwr o rocyr **Cleif Harpwood** ein hatgoffa o rai o ffefrynnau'r 70au. Cyfoes a chyfredol iawn yw cerddoriaeth **Lafant** , grŵp sydd wedi datblygu'n aruthrol yn ystod y flwyddyn ddwetha. Yn cloi perfformiadau Llwyfan Y Frenni Fawr fydd y band seicadelig poblogaidd o Ben Llŷn, **Pys Melyn**.

Yn arwain gweithgareddau'r llwyfannau eleni bydd y gyflwynwraig a'r roces leol, **Mari Grug**.

Mae Gŵyl Fel 'na Mai yn ŵyl i'r teulu cyfan ac yn ogystal â'r wledd o gerddoriaeth a ddarperir i oedolion mae 'na lu o weithgareddau amrywiol ar gael yn y yr **ardal blant** ar gyfer ein hymwelwyr ifanc.

Cofiwch bod 'na far trwyddedig ar y safle gydol yr Ŵyl trwy gydweithrediad Clwb Rygbi Crymych a bar Jin newydd i'r Ŵyl eleni gan In The Welsh Wind a bydd digonedd o luniaeth amrywiol gan arlwywyr lleol.

Bydd 'na barcio ar safle Frenni Transport, ac ar leoliadau cyfagos o fewn i Barc Gwynfryn. Os ydych am wersylla neu letya yn eich cartref symudol dros yr Ŵyl, yna mae 'na ddarpariaeth ar eich cyfer.

Gyda chymaint i'w fwynhau, does dim rhyfedd bod tocynnau'n prinhau. Felly, hastwch i archebu eich tocyn chi cyn gynted ag y bo modd. Ewch i **felnamai.cymru** am ragor o wybodaeth. Peidiwch â cholli mas! Dewch i Joio mas draw!!